

Rhowch hwb i'ch gyrfa

Rydym yn chwilio am fyfyrwyr a graddedigion talentog sydd ag anabledau a chyflyrau hirdymor. Os yw hynny'n eich disgrifio chi, ymunwch â Change 100 a gwiredwch eich potensial.

Helô

Ni yw Leonard Cheshire - yn cefnogi unigolion anabl i fyw, dysgu a gweithio mor annibynnol ag y dewisant, beth bynnag fo'u gallu. Wedi ein harwain gan bobl sydd â phrofiad o anabledd, rydym wrth wraidd bywyd lleol – yn agor drysau at gyfleoedd, opsiynau a chymorth mewn cymunedau ledled y byd.

Beth yw Change 100?

Change 100 yw ein rhaglen flaenllaw sy'n cynnig lleoliadau gwaith â thâl dros yr haf, sesiynau mentora a datblygiad proffesiynol. Mae wedi'i chynllunio i gefnogi datblygiad gyrfa myfyrwyr prifysgol a graddedigion diweddar, talentog, sydd ag unrhyw anabledd neu gyflwr hirdymor, gan gynnwys:

- Cyflyrau niwrowahanol fel dyslecsia, dyspracsia, awtistiaeth, ADHD
- Nam symudedd
- Nam synhwyraidd
- Cyflyrau hirdymor fel IBS, diabetes, clefyd Crohn, epilepsi, blinder cronig
- Cyflyrau iechyd meddwl fel gorbryder, iselder, anhwylder deubegwn, OCD, anorecsia

Os ydych yn ansicr ynghylch eich cymhwysra, anfonwch e-bost at change100applications@leonardcheshire.org

Ar gyfer pwy mae Change 100?

I wneud cais ar gyfer Change 100, rhaid ichi fodloni'r holl feini prawf canlynol:

- Bod ag anabledd neu gyflwr hirdymor fel y'u diffinir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Bod yn eich blwyddyn olaf, neu olaf ond un, o radd israddedig neu ôl-raddedig yn y brifysgol, neu wedi graddio yn 2020, 2021 neu 2022. Caiff unrhyw bwnc gradd ei dderbyn
- Wedi cyflawni, neu disgwylir ichi gyflawni, gradd israddedig 2:1 neu ddosbarth 1af*
- Yn gymwys i weithio yn y DU am hyd lleoliad llawn amser dros yr haf
- Bod ar gael i fynychu canolfan asesu ym mis Ionawr neu Chwefror

*Os yw amgylchiadau mewn perthynas â'ch anabledd neu gyflwr wedi effeithio ar eich perfformiad academiaidd, gallwn roi ystyriaeth i'r amgylchiadau hynny. Cysylltwch â ni i drafod hyn.





Cyflogwyr Change 100

Rydym wedi uno â sefydliadau sy'n credu nad yw anabledd yn rhwystr rhag cael gyrfa wych.

Mae'r cyflogwyr rydym yn gweithio â nhw yn gwerthfawrogi'r gwerth gall myfyrwyr a graddedigion diweddar, talentog, sy'n anabl ei gynnig i'w sefydliadau.

Maent yn cydnabod pwysigrwydd y sgiliau a'r ymddygiadau mae interniaid Change 100 yn eu harddangos, fel addasrwydd, datrys problemau, croesawu heriau

a hunanymwybyddiaeth. Mae interniaid Change 100 eisoes wedi gadael eu marc gyda thros 225 o gyflogwyr blaengar.

Rydym yn gweithio'n barhaus i sefydlu partneriaethau newydd gydag ystod eang o sefydliadau uchel eu bri er mwyn cynnig cyfleoedd lleoliad. Mae'r rhain yn cynnwys cyflogwyr corfforaethol o wahanol ddiwydiannau, a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Rhai o'n partneriaid cefnogi



ARTS COUNCIL
ENGLAND

ARUP

 Archwilio Cymru
Audit Wales

 AutoTrader

BBC STUDIOS



FREETHS

GOCARDLESS



IHG HOTELS &
RESORTS

 LexisNexis®

HIPGNOSIS

MACMILLAN
CANCER SUPPORT



Ministry
of Justice



NEXT

NHS

England



HERITAGE
FUND



ROYAL BERKSHIRE
FIRE AND RESCUE SERVICE
Enabling people to lead safe and fulfilling lives

supported by



Nottinghamshire
County Council

SKANSKA



wall to wall television

Wickes



ZURICH®

Cymorth a datblygiad proffesiynol

Ar ôl cael cynnig lleoliad, byddwn yn gweithio gyda chi a'ch cyflogwr er mwyn sicrhau eu bod yn deall eich anabledd ac unrhyw addasiadau sydd eu hangen arnoch chi.

Yn ystod eich interniaeth, byddwch yn cael cymorth gan eich cyfoedion, mentor yn eich sefydliad, yn ogystal â thîm Change 100. Byddwn yn parhau i weithio gyda chi drwy ein rhaglen ddatblygu ar ôl i'ch lleoliad ddod i ben.

Rhaglen ddatblygu Change 100

Mae ein rhaglen ddatblygu broffesiynol yn cyfuno gwaith grŵp gyda dysgu hunangyfeiriedig, a chaiff ei llywio gan eich nodau datblygu personol penodol. Mae pynciau'n cynnwys gosod nodau, rhwydweithio, manteisio i'r eithaf ar fentora, rheoli eich anabledd yn y gweithle a datgelu.

Drwy gyfuno lefel uchel o gymorth gyda lefel uchel o her, mae elfennau datblygiadol Change 100 yn helpu i sicrhau eich bod yn cael y gorau o'ch amser ar y rhaglen, ac yn eich rhoi ar ben ffordd ar gyfer eich cam nesaf yn eich gyrfa. Byddwn yn cynnal digwyddiad cynefino ar ddechrau mis Mehefin, cyn ichi ddechrau ar y lleoliad, cyn cynnal sesiynau datblygu proffesiynol misol wedyn tan fis Rhagfyr 2023.

“ Mae Change 100 wedi rhoi golwg newydd i mi o anabledd yn y gweithle. Ar ôl cael profiad go anodd yn ystod fy mlwyddyn lleoliad ar gyfer fy nghwrs gradd, drwy ymgymryd â'r rhaglen hon, rwyf wedi dysgu'r sgiliau i siarad am fy anabledd yn hyderus, a pha addasiadau sydd eu hangen arnaf.

”

Niamh, Intern
Next

Proses ddethol Change 100

Ffurflen gais

Bydd angen ichi gwblhau ffurflen gais ar-lein rhwng 5 Hydref 2022 a 5 Ionawr 2023. Fel arall, gallwch gyflwyno eich cais yn ysgrifenedig neu ar ffurf fideo, yn ymateb i'r un cwestiynau a restrir ar y ffurflen gais.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi gyda'ch cais, neu os hoffech chi gael y ffurflen gais ar ffurf wahanol, cysylltwch â: change100applications@leonardcheshire.org or call: 020 3242 0299.

Evch i: leonardcheshire.org/Change100 i ddechrau ar eich cais drwy ddewis 'ymgeisio nawr'!

Ein canolfannau asesu

Mae ein canolfannau asesu wedi'u cynllunio i wireddu gwir allu ymgeiswyr, a sicrhau tegwch a chyfle cyfartal.

Nid yw ein proses ymgeisio yn cynnwys profion seicometreg ar unrhyw adeg.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn ichi fynd i'r ganolfan asesu er mwyn pennu unrhyw addasiadau a all fod eu hangen arnoch chi, er mwyn sicrhau eich bod yn gallu perfformio hyd gorau eich gallu.*

Bydd cynrychiolwyr o dîm Change 100 yn bresennol er mwyn eich cefnogi chi a byddant yn asesu eich cryfderau a meysydd i'w datblygu, ar y cyd â chyflogwyr lleoliad.

*Efallai bydd canolfannau asesu'n cael eu cynnal ar-lein yn 2023.





Cysylltu ymgeiswyr â chyflogwyr

Os byddwch yn llwyddiannus yn ystod ein proses recriwtio, byddwn wedyn yn mynd ati i geisio eich paru ag un o'n partneriaid cyflogi, yn seiliedig ar eich diddordebau a lle'r ydych yn byw. Rydym yn eich annog i feddwl yn agored am eich lleoliad, gan fod ein holl rolau'n cynnwys cyfle ichi ddatblygu'n bersonol.

Dylai ymgeiswyr nodi, nid yw cwblhau ein proses recriwtio'n llwyddiannus yn sicrhau cyflogaeth. Byddwn yn ceisio eich paru â rôl sy'n addas i chi a'ch diddordebau, ond efallai y byddwch yn cael cynnig rôl nad oeddech wedi'i hystyried yn flaenorol.

Ar ôl cytuno ar eich lleoliad, byddwch yn cael cynnig cyflogaeth gan eich sefydliad.

Manyleb person

Cymwysterau:

Wedi cyflawni unrhyw radd israddedig prifysgol ar radd 2:1 neu 1af, neu y disgwylir ichi wneud hynny*

Profiad:

Nid oes angen unrhyw wybodaeth na phrofiad hanfodol

Priodoleddau personol:

- Yn gallu datrys problemau mewn ffordd greadigol
- Yn cyfrannu'n effeithiol mewn tîm
- Sgiliau trefnu da
- Yn agored i weithio ar eich menter eich hun
- Yn gallu addasu i heriau newydd

- Ymrwymiad i hunanddatblygiad
- Yn agored i hunan-fyfyrio

Arall:

- Rhaid ichi fod ag anabledd neu gyflwr hirdymor fel y'u diffinir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- Rhaid ichi fod yn gymwys i weithio yn y DU am hyd lleoliad llawn amser dros yr haf. Os ydych yn fyfyriwr rhyngwladol, cyfeiriwch at delerau eich cytundeb fisa

*Os yw amgylchiadau mewn perthynas â'ch anabledd neu gyflwr hirdymor wedi effeithio ar eich perfformiad academiaidd, byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r amgylchiadau hynny. Nodwch hyn yn glir pan fo'n cael ei grybwyll ar y ffurflen gais.



Mae Sesiynau Datblygu Proffesiynol Change 100 a'r gweminarau wedi bod yn hynod ddefnyddiol. Roeddwn yn meddwl y byddai cwmnïau byd-eang yn gorfforaethol ac yn eithaf llym, ond nid felly oedd fy lleoliad Change 100. Roedd diwylliant y cwmni'n hynod gadarnhaol, ac roeddwn wir yn gwerthfawrogi'r ffocws ar amrywiaeth a chynhwysiant.



Alison, Intern
Elsevier

Swydd Ddisgrifiad

Hyd:

Hyd at dri mis. Mae'r rhan fwyaf o'r rolau'n rhai llawn amser, ond mae opsiwn rhan amser ar gael, pe bai angen, fel addasiad i'r gweithle.

Lleoliad:

Amryw o leoliadau, ledled y DU. Rydym yn cynnig cyfuniad o rolau wedi'u lleoli mewn swyddfa ac o gartref. Byddwn yn cynnig arweiniad ar gyfer rolau sydd wedi'u lleoli o bell.

Oriau:

Mae oriau gwaith arferol yn debygol o fod rhwng 9am a 5pm, fodd bynnag, mae sawl cwmni'n cynnig oriau gwaith hyblyg.

Llety:

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau llety ar gyfer hyd eich lleoliad.

Cyflog:

Bydd y cyflog yn bodloni'r gyfradd fesul awr a argymhellir gan y Living Wage Foundation: www.livingwage.org.uk

Yn ystod eich lleoliad, byddwch yn cael eich cyflogi'n uniongyrchol gan sefydliad eich lleoliad.

Meysydd lleoliadau:

Bydd eich rôl yn amrywio, yn ddbynnol ar natur eich lleoliad.

Byddwn yn cynnig rolau gwych mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys:

- Cyfrifeg
- Gwasanaethau i gwsmeriaid
- Dadansoddi data
- Peirianeg
- Cyllid
- Codi arian a datblygu busnes
- Adnoddau dynol
- TG
- Marchnata
- Rheoli prosiect
- Cysylltiadau cyhoeddus a materion cyhoeddus
- Datblygu meddalwedd

Cyfrifoldebau:

Byddwch yn chwarae rôl allweddol mewn prosiectau diddorol, a byddwch yn cael cymorth eich rheolwr a chydweithwyr ar hyd y ffordd.

Gall cyfrifoldebau cyffredin gynnwys cyfuniad o gyfrannu mewn cyfarfodydd, ymchwilio, llunio adroddiadau, creu cyflwyniadau, ymdrin â gwaith prosiect a gwaith gweinyddol cyffredinol. Bydd hyn yn amrywio yn ddbynnol ar eich rôl a'r cyflogwr.



Beth all Change 100 ei gynnig i chi

Proses recriwtio gynhwysol – wedi'i chynllunio i'ch galluogi i ragori

- Profiad â thâl gwerthfawr, gyda chyflogwr uchel ei barch, a fydd yn rhoi hwb i'ch rhagolygon gyrfa
- Hyder i ddatgelu eich anabledd
- Cymorth wrth nodi a gofyn am addasiadau i'w gwneud yn y gweithle
- Rhaglen fentora a datblygiad profesiynol bwrpasol
- Grŵp cyfoed o gyd-gyfranogwyr Change 100
- Cyfleoedd i ehangu eich rhwydwaith

“

Mae'n fraint ac yn gyfle gwyh i weithio gyda sefydliadau ag amrywiaeth o rolau'n seiliedig ar eich diddordebau a nodau gyrfa.

”

Lily, Intern
BMW

Dyddiadau allweddol

5 Hyd 2022

Ceisiadau yn agor

5 Ion 2023, 2pm

Cyfnod ymgeisio yn dod i ben

Ion – Chwef 2023

Llunio rhestr fer ymgeiswyr a chanolfannau asesu

Maw – Mai 2023

Cysylltu ymgeiswyr â lleoliadau

Meh 2023

Cynefino a dechrau ar leoliadau

Meh – Medi 2023

Cyfnod lleoliad a digwyddiadau datblygu proffesiynol misol

Medi – Rhag 2023

Parhau â'r rhaglen ddatblygu broffesiynol gyda digwyddiad graddio ym mis Rhagfyr

Gwnewch gais nawr

leonardcheshire.org/change100

Dyddiad Cau 5 Ionawr 2023

#Change100

Mae Leonard Cheshire Disability yn elusen gofrestredig rhif: 218186 (Cymru a Lloegr) a rhif: SC005117 (Yr Alban), a chwmmi cyfyngedig drwy warant gofrestredig yn Lloegr rhif: 552847. Rhif TAW: 899 3223 75. Swyddfa gofrestredig: 66 South Lambeth Road, London SW8 1RL.

Wedi cyrraedd rownd derfynol Gwobrau Cyflogadwyedd Israddedig Cenedlaethol 2018 – Menter Anabledd Gorau yn y byd Profiad Gwaith